

DEDDF TRETH TRAFODIADAU TIR A GWRTHWEITHIO OSGOI TRETHI DATGANOLEDIG (CYMRU) 2017

EXPLANATORY NOTES

SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

Rhan 8 – Dehongli a Darpariaethau Terfynol

Atodlen 17 – Rhyddhad atgyfansoddi a rhyddhad caffael

Rhan 2 - Rhyddhad atgyfansoddi

376. Mae Rhan 2 o'r Atodlen yn darparu ar gyfer "rhyddhad atgyfansoddi" sy'n golygu, pan fo'r amodau penodedig yn cael eu bodloni, na chodir treth trafodiadau tir ar gynllun i atgyfansoddi cwmni (y "cwmni targed"). Darperir rhyddhad atgyfansoddi ar gyfer trafodiadau tir sy'n gysylltiedig â throsglwyddo ymgymeriad cyfan cwmni targed ("T"), neu ran o'i ymgymeriad, i gwmni caffael ("C"), sy'n ffurfio rhan o gynllun i atgyfansoddi T. Rhaid i'r gydnabyddiaeth ar gyfer y caffaeliad fod yn gyfan gwbl neu'n rhannol ar ffurf cyfranddaliadau anatbrynadwy a ddyroddir yn C i gyfranddalwyr T, a phan fo'r gydnabyddiaeth ond yn rhannol yn gyfranddaliadau anatbrynadwy, rhaid i weddill y gydnabyddiaeth ond gynnwys ysgwyddo neu gyflawni rhwymedigaeth T gan C yn unig. "Cyfranddaliadau anatbrynadwy" yw cyfranddaliadau nad ydynt yn atbrynadwy; caniateir iddynt gael eu masnachu neu eu dal nes iddynt aeddfedu ond ni chaniateir iddynt gael eu hatbrynu gan y cwmni dyroddi ar ddyddiad yn y dyfodol. Amod allweddol o ryddhad atgyfansoddi yw bod rhaid, yn dilyn y caffaeliad, i gyfranddaliwr yn T fod yn gyfranddaliwr yn C hefyd, ac i'r gwrthwyneb. Yn ogystal â hynny, rhaid i unrhyw gyfranddaliwr ddal yr un gyfran o gyfranddaliadau yn T ac yn C (neu mor agos ag y bo modd). Fel yn achos rhyddhad gr#p, rhaid i'r atgyfansoddi fod am resymau masnachol dilys ac ni chaiff fod yn rhan o unrhyw drefniant i osgoi talu treth trafodiadau tir.